# Ydych chi'n gymwys ar gyfer ein Rhaglen Datblygu Angori Cymunedol newydd?

Os gallwch ateb 'ydw' i'r cwestiynau hyn, byddwch yn gymwys!

Os nad ydych yn siŵr, gallwch gysylltu â ni yn info@bct.cymru a bydd un ohonom yn eich ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl.

1. Ydych chi wedi eich lleoli yn un o'r ardaloedd cymwys?

Mae'r ardaloedd wedi cael eu dewis drwy ddefnyddio mynegai newydd o asedau cymunedol y mae BCT wedi bod yn eu datblygu ar y cyd â mynegai amddifadedd lluosog Cymru. Mae'r mynegai newydd yn cynnwys gwybodaeth o asedau cymunedol lleol, cysylltedd ac ymgysylltu a gweithredu cymunedol.

Oherwydd bod data ar gael ar gyfer rhai elfennau o'r mynegai newydd yn gyfyngedig, mae'r ardaloedd cymwys wedi'u targedu at Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOAs) sydd â phoblogaethau o rhwng 5000-7800 o bobl yn hytrach nag ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) sydd â phoblogaethau o rhwng 1000-3000 o bobl.

Mae'r rhaglen felly'n targedu ardaloedd sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac sydd ag asedau cymunedol cyfyngedig. Nid yw'r ardaloedd a ariennir ar hyn o bryd gan ein rhaglen Buddsoddi'n Lleol yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon, gan eu bod eisoes yn derbyn £1m yr un.

Rhaglen Datblygu Angorau Cymuned
Community Anchor Development Programme

2. Ydych chi, neu ydych chi'n awyddus i ddod yn 'fudiad angori cymunedol'?
Beth yw mudiadau 'angori' cymunedol?
·dan arweiniad y gymuned neu a reolir gyda rhwydweithiau lleol cryf.

·amlbwrpas, yn gyfrifol am wahanol weithredoedd lleol yn y gymuned (gallai hyn gynnwys un neu ragor o waith economaidd lleol, cymorth ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden; gwasanaethau cynghori, prosiectau bwyd a gwaith amgylcheddol lleol).

Os nad ydych yn fudiad amlbwrpas ar hyn o bryd, ond yn awyddus i ehangu eich gwaith i wneud hynny, efallai y byddwch yn dal yn gymwys i gael cymorth; Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni i drafod hyn

·wedi ymrwymo i'ch cymuned leol ac yn ymateb i faterion sy'n codi'n lleol.

·wedi ymrwymo i gyfle cyfartal a darparu cefnogaeth a gweithgareddau i bob rhan o'ch cymuned.

3. Ydych chi'n elusen gofrestredig neu'n fudiad nid-er-elw arall (gan gynnwys grŵp cymunedol cyfansoddiadol)?

4.A allwch chi enwi her allweddol y mae angen i chi fynd i'r afael â hi a fyddai'n eich galluogi i ddod yn fwy effeithiol wrth gefnogi eich cymuned leol?

Os ydych chi'n meddwl eich bod yn pasio'r prawf cymhwyso a bod gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y rhaglen, cysylltwch â ni i gael sgwrs anffurfiol. Gallwch cysylltu â ni yn info@bct.wales a bydd un o'n staff yn dod yn ôl atoch. Y dyddiad cau ar gyfer cysylltu â ni ydy dydd Gwener 6 Hydref os hoffech inni eich helpu i lunio cais.

Rhaglen Datblygu Angorau Cymuned
Community Anchor Development Programme